BWRDD DIOGELU GOGLEDD CYMRU

Protocol ar gyfer Rheoli Adroddiadau Lluosog o Ddigwyddiadau Rhwng Oedolion Mewn Perygl yng Ngogledd Cymru

Fersiwn	**Dyddiad Cadarnhau**	**Dyddiad Adolygu**
1.0 Terfynol Rhagfyr 2019	Gorffennaf 2020	Gorffennaf 2023
1.1 Mawrth 2023 i: 2.5	Adolygwyd gwelliant Mawrth 2023	Mawrth 2026

Protocol ar gyfer rheoli adroddiadau lluosog o ddigwyddiadau rhwng oedolion mewn perygl.

Rhagarweiniad
Comisiynodd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru y gwaith hwn yn dilyn ymateb y Bwrdd i ddogfen HASCAS 'Adroddiad Ymchwil Annibynnol i'r Gofal a'r Driniaeth a Ddarparwyd ar Ward Tawel Fan: Gwersi a Ddysgwyd'.

Y cam gweithredu oedd bod Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru (BDOGC) yn creu canllaw aml-asiantaeth er mwyn ymdrin ag adroddiadau lluosog o achosion o ddigwyddiadau rhwng Oedolion mewn Perygl, er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ar draws yr asiantaethau.

Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen i ddatblygu'r protocol hwn gydag ymgysylltiad Aml-asiantaeth. Yr asiantaethau sy'n gysylltiedig yw: Heddlu Gogledd Cymru, Fforwm Gofal Cymru, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chymdeithas Alzheimer's, gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn bresennol i oruchwylio.

1. Rhagarweiniad

1.1 Mae gan bob unigolyn yn ein gofal hawl i ddisgwyl gofal mewn amgylchedd diogel, boed hynny mewn ward ysbyty neu mewn gofal a gomisiynir. Fel y cyfryw mae dyletswydd i sicrhau bod gan bob unigolyn gynllun gofal pwrpasol a pherthnasol mewn lle sy'n cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol a lleol, fel y'u gosodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae gan asiantaethau, a'r unigolion sy'n gweithio iddyn nhw, gyfrifoldeb i gofnodi a chymryd camau prydlon os ydynt yn meddwl bod diogelwch, urddas neu gysur y person mewn perygl.

1.2 Mae'n rhaid i weithdrefnau diogelu ganolbwyntio ar y person ac mae'n rhaid iddynt gymryd i ystyriaeth barn a dymuniadau'r oedolyn dan sylw. Nid yw diogelu yn rhywbeth y dylid 'ei wneud' i berson a bydd y camau a gymerir gan asiantaethau fel arfer yn cael eu cytuno gyda'r unigolyn yn unol â phrosesau diogelu.

1.3 Dylid tybio bod oedolyn yn gallu gwneud penderfyniad drosto/drosti ei hun oni bai bod modd dangos nad oes ganddo/ganddi'r gallu i wneud penderfyniadau drosto/drosti ei hun ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad. Mae'n rhaid i'r unigolion dderbyn pob help a chefnogaeth briodol sydd eu hangen arnynt i wneud eu penderfyniadau eu hunain neu i sicrhau eu bod yn cymryd cymaint o ran ag sy'n bosibl mewn unrhyw broses o wneud penderfyniadau.

1.4 Wrth gefnogi unigolion byddwn yn canolbwyntio bob amser ar atal. Bydd angen i staff fod yn rhagweithiol i sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei asesu cyn derbyn neu drosglwyddo ac ystyried deinameg cydweddoldeb a risg. Bydd angen i gynllun gofal sy'n canolbwyntio ar y person gynrychioli anghenion amlwg yr unigolyn yn gywir.

1.5 Nid bwriad y cyngor hwn yw bod yn ganllaw ymarfer manwl na dogfen ragnodol. Ei fwriad yw cefnogi dyfarniad proffesiynol trwy osod disgwyliadau clir am atebolrwydd a'r ffyrdd y dylai asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gydweithio i ddiogelu oedolion mewn perygl.

2. Adroddiadau Oedolion mewn Perygl

2.1 Os oes rheswm rhesymol i amau bod oedolyn mewn perygl, bydd yr awdurdod lleol yn gwneud (neu'n peri i wneud) pa bynnag ymchwiliadau y credir sy'n angenrheidiol i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau, ac os felly, beth a gan bwy. Fel arfer, dylid cwblhau ymchwiliad cyn pen saith diwrnod ar ôl yr adroddiad.

2.2 Os yw aelod o staff yn credu bod trosedd wedi digwydd dylai roi gwybod i'r heddlu. Os nad oes gan y dioddefwr alluedd meddyliol i roi barn ddeallus am y digwyddiad, mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Heddlu, gan sicrhau bod rhif digwyddiad Heddlu Gogledd Cymru wedi'i gynnwys yn yr adroddiad oedolyn mewn perygl.

2.3 Os mai BIPBC yw comisiynydd neu gyd-ariannwr y lleoliad, dylid rhannu'r adroddiad oedolyn mewn perygl gyda BCU.AdultSafeguarding@wales.nhs.uk

2.4 Dylai'r awdurdod lleol rannu canlyniad yr ymchwiliad gyda'r sawl a atgyfeiriodd.

2.5 Mewn sefyllfaoedd lle mae diffyg galluedd gan y dioddefwr a chyflawnwr y gamdriniaeth mae'n rhaid cwblhau Adroddiad Oedolyn mewn Perygl ar gyfer y ddau unigolyn. Bydd hyn yn sicrhau y gall yr asiantaethau ymgymryd ag adolygiadau a monitro yn effeithiol.

3. Mwy nag un adroddiad (Mae pob asiantaeth unigol yn penderfynu sut a chan bwy y mae'r rhain yn cael eu monitor).

Pan fydd tri neu fwy o adroddiadau wedi dod i law o leoliad lle bynnag y bo gofal a neu darperir cefnogaeth, e.e. Cartref Gofal, Ysbyty, Dom Care, dros gyfnod o 6 mis yn ymwneud â yr un unigolyn (ni waeth a ydyn nhw'n Oedolyn Mewn Perygl neu'n oedolyn arall anghenion gofal a chymorth sydd wedi achosi'r niwed), (sut a chan bwy y mae'r rhain yn cael eu monitro mater i bob asiantaeth unigol fyddai penderfynu) dylid cymryd y camau canlynol:

1. Dylid cynnal adolygiad cyn pen 7 diwrnod gyda'r darparwr ac unrhyw ddisgyblaeth ac asiantaeth arall sy'n gysylltiedig.

2. Dylid casglu dymuniadau a barn yr unigolyn a/neu ei eiriolwr gan ddefnyddio'r ffurflen Beth sy'n Bwysig.

3. Dylai'r sawl sy'n cwblhau'r adroddiad oedolyn mewn perygl lenwi a rhannu asesiad risg wedi'i ddiweddaru a chynllun amddiffyn i'r person(au) sy'n cael ei gam-drin a'r unigolyn sy'n achosi'r niwed.

4. Uwchgyfeirio i uwch reolwyr a chyfarwyddwyr yn y sefydliad perthnasol os yw hynny'n briodol. Ystyried o bosibl Gweithdrefnau Uwchgyfeirio Pryderon.

5. Cofnodi camau gweithredu'r adolygiad yn glir – gallai hynny gynnwys cyfarfod gweithwyr proffesiynol neu gyfarfod strategaethau diogelu.

6. Cytuno ar gamau gweithredu gyda phawb dan sylw, gan gynnwys yr unigolyn a/neu ei eiriolwr lle bo hynny'n briodol.

7. Os yw'r digwyddiadau'n parhau ac os yw'r risg a nodwyd yn parhau, dylid uwchgyfeirio hyn fel sy'n briodol.

8. Dylid monitro'r broses a'i hadolygu gyda dyddiadau terfyn clir (gallai hyn fod yn rhan o weithdrefnau uwchgyfeirio pryderon).

4. Deddfwriaeth Berthnasol

4.1 Mae Adran 126(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio "oedolyn mewn perygl" fel oedolyn sydd:

i. yn profi camdriniaeth neu esgeulustod, neu mewn perygl o hynny;
ii. ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio);
a / ac
iii. o ganlyniad i'r anghenion hynny nid yw'n gallu diogelu ef neu hi ei hun yn erbyn y gamdriniaeth neu'r esgeulustod neu'r risg o hynny.

4.2 ***Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: Rhifyn 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion mewn Perygl –*** amlygir y dylid sicrhau bod dau egwyddor allweddol yn sylfaen i drefniadau diogelu effeithiol ym mhob maes diogelu sef:

i. mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb: er mwyn i drefniadau diogelu fod yn effeithiol,

ii. mae'n rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad chwarae rhan lawn
a

dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn: er mwyn i drefniadau diogelu fod yn effeithiol,

4.34.3 dylent fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r deilliannau personol y mae'r oedolyn yn dymuno eu cyflawni yn eu bywyd o ddydd i ddydd a'r hyn sydd yn bwysig i'r unigolyn.

Cysylltiadau:

Y pedwar prif ddull o adrodd pryderon wrth Heddlu Gogledd Cymru yw:

Rhif ffôn mewn achos brys: 999

Rhif ffôn mewn achos heb fod yn frys: 101

Ar-lein: North Wales Police - Web chat.

Atgyfeiriadau gan y Gwasanaethau Cymdeithasol: i'r Uned

Atgyfeirio Ganolog:

publicprotectionreferralunit@nthwales.pnn.police.uk

4.3.1 Mae pob adroddiad o bryder yn cael eu cofnodi gan Heddlu Gogledd Cymru ac mae cyhuddiadau o amheuon o droseddoldeb yn cael eu cofnodi yn seiliedig ar y Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol (NCRS).

4. Gweithio mewn partneriaeth

Mae'n rhaid i bartneriaid perthnasol sy'n gweithio gydag oedolion mewn perygl sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i adnabod arwyddion o gamdriniaeth neu esgeulustod, sut i ymateb iddynt; a lle i fynd am gyngor a chymorth. Dylent hefyd fod â dealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau perthnasol pob partner wrth ymdrin ag achosion unigol.

Dylai'r cyfrifoldebau hyn fod ar gael mewn Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol sy'n hygyrch, yn hawdd i'w deall ac sy'n cael eu defnyddio gan bob partner perthnasol.

4.5 Dylai pwyntiau cyswllt unigol sy'n hawdd i'w hadnabod fod yn yr awdurdod lleol a'r partneriaid perthnasol i sicrhau bod partner perthnasol yn gallu adrodd am unrhyw bryderon i'r awdurdod lleol yn unol â'r ddyletswydd a osodir yn adran 128 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Diffinnir partneriaid perthnasol yn adran 162(4).

5 Cytundeb aml-asiantaeth

5.1 Mae'r protocol hwn wedi'i gadarnhau yn dilyn ymgynghoriad dwys a phriodol, i'r pwynt lle gall BDOGC fod yn hyderus y bydd asiantaethau partner yn cefnogi a gweithredu'r protocol yn gyfan gwbl.

5.2 Nid bwriad y cyngor hwn yw bod yn ganllaw ymarfer manwl, yn hytrach mae'n gosod allan disgwyliadau clir am y ffyrdd y dylai asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gydweithio i ddiogelu oedolion mewn perygl.

Adroddiadau Oedolion mewn Perygl

1 Os oes rheswm rhesymol i amau bod oedolyn mewn perygl, bydd yr awdurdod lleol yn gwneud (neu'n peri i wneud) pa bynnag ymchwiliadau y credir sy'n angenrheidiol i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau, ac os felly, beth a gan bwy. Fel arfer, dylid cwblhau ymchwiliad cyn pen saith diwrnod ar ôl yr adroddiad.

2. Os yw aelod o staff yn credu bod trosedd wedi digwydd dylai roi gwybod i'r heddlu. Os nad oes gan y dioddefwr alluedd meddyliol i roi barn ddeallus am y digwyddiad, mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Heddlu, gan sicrhau bod rhif digwyddiad Heddlu Gogledd Cymru wedi'i gynnwys yn yr adroddiad oedolyn mewn perygl.

3. Os mai BIPBC yw comisiynydd neu gyd-ariannwr y lleoliad dylid rhannu'r adroddiad oedolyn mewn perygl gyda BCU.AdultSafeguarding@wales.nhs.uk

4. Dylai'r awdurdod lleol rannu canlyniad yr ymchwiliad gyda'r atgyfeiriwr.

MWY NAG UN ADRODDIAD

Dim ond pan fydd tri neu fwy o adroddiadau wedi'u derbyn gan leoliad penodol dros gyfnod o 6 mis mewn perthynas â'r un unigolyn (p'un a ydynt yn Oedolyn Mewn Perygl neu'n oedolyn arall ag anghenion gofal a chymorth sydd wedi achosi'r niwed), y dylid cymryd y camau canlynol: